



Mehefin 10fed 2018



Gwerfyl Morse sydd yn llywyddu heddiw, ac ry'n ni'n croesawu'r Dr Ian Hughes i'n plith. Mae e fel arfer yn addoli yng Ngwaelod y Garth. Sian Elin sydd wrth yr organ. Diolch iddyn nhw a chroeso arbennig i ymwelwyr i'n plith.

Y Suliau nesaf.....

Mehefin 17eg – Sul i'r Teulu, gyda Rhiannon a Gareth Humphreys a Bethan Roberts yn cyfeilio

Mehefin 24ain – Emlyn Davies, gydag Ann Griffiths ac Eleri Huws yn cyfeilio

Gorffennaf 1af – Sul pentref Efail Isaf

Gorffennaf 8ed – bydd ymwelwyr o gapeli Cymraeg y rhanbarth yn ymuno gyda ni am yr oedfa. Wedi'r oedfa bydd taith gerdded i'r rhai hoffai wneud i ben y Garth.

Gorffennaf 15fed – Sul i'r teulu cyfan gyda gemau a picnic yn y parc i ddilyn.

Rhybudd Perygl

Yng nghyfarfod y Bwrdd ddechrau Mai, adroddwyd nad yw'r fynwent yn gwbl ddiogel ac yn arbennig felly i blant chwarae ynddi. Felly apeliwn ar rieni, athrawon yr Ysgol Sul ac eraill i wneud yn siŵr bod y plant yn eu gofal yn cadw draw o'r fynwent rhag iddynt gael niwed.

Negeseuon e-bost

Yn sgil y ddeddfwriaeth newydd ar breifatrwydd data personol, carem ddiolch am amynedd yr aelodau hynny gyda chyfrif e-bost sydd eisoes wedi rhoi eu caniatâd i'r eglwys barhau i anfon negeseuon e-bost atynt ar ôl 25 Mai. Mae ambell un heb ymateb i'r negeseuon a anfonwyd yn gofyn am ganiatâd, ond nid yw'n rhy ddiweddar i wneud hynny am un wythnos arall. Cofiwch ymateb i'r cais cyn gynted â phosib rhag i chi gollir gwasanaeth hwn yn gyfan gwbl.

Mae gwybodaeth reolaidd am y capel ar www.tabernacl.org

Mae llwyth o bethau amrywiol a doeth ar www.cristnogaeth21.cymru

Diolch

Dymuniadau Gorau

i Ann Dwynwen Davies a Morfydd Huws sy'n gwella'n dda wedi cael llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Pob hwyl iddyn nhw, gan obeithio bod eu cogyddion cartref yn cwrdd â'u gobeithion.

Cais sensitif.....

Cyn i ni gwrdd ar fore dydd Sul, mae'r gynulleidfa Saesneg yn cynnal eu hoedfa hwythau yn y capel. Gwerthfawrogir yn fawr petai aelodau'r gynulleidfa Gymraeg yn osgoi dod i mewn i'r adeilad tan 10.30 er mwyn parchu eu tawelwch nhw. Diolch.

Maen nhw ar yr un pryd yn mynd i adnewyddu eu hymdrechion i orffen erbyn 10.30.

Merched y Tabernacl

Gorffennaf 5ed

Cwrdd yn 'Cwrt Insole' am 10.30 am banded a chlonc a hefyd gawn gyfle i fynd o gwmpas y tŷ a'r gerddi.

Stafell Fyw Caerdydd

10fed darlith flynyddol Stafell Fyw Caerdydd yn Yr Hen Lyfrgell yn yr Ais, Caerdydd, **ar nos Fawrth 19eg o Fehefin am 7 yh.**

Yr Athro Samantha Thomas o Brifysgol Deakin, Awstralia fydd yn traddodi'r ddarlith ar y testun: 'Amddiffyn y genhedlaeth nesaf rhag niwed/ Protecting our next generation from harm'. Arbenigwraig fyd eang ar gaethiwed i gamblo. Croeso i bawb. , Am ddim, gyda lluniaeth ysgafn.

Ebost Gwilym Huws ein hysgrifennydd yw

gehpengwern@yahoo.co.uk

Cyhoeddiadau at:

geraintrees@hotmail.com

Derbyniodd yr eglwys gais ar fyr rybudd i baratoi cinio pnawn dydd Mawrth 5 Mehefin i griw o 30 o Gristnogion o Fadagasgar oedd yn ymweld â Chymru fel rhan o ddathliadau 200 mlwyddiant glaniad y cenhadon cyntaf o Gymru i'r ynys yn 1818. Diolch o galon i Ferched y Tabernacl, dan arweiniad Ros Evans, am ymateb mor frwd i'r cais i sicrhau bod digonedd o fwyd blasus ar y byrddau yn y Ganolfan. Roeddynt yn ymwelwyr hynaws iawn a chafwyd pnawn i'w gofio yn eu plith. Cyn gadael am Benrhys roeddynt yn awyddus iawn i ddiolch am y croeso a gawsant yng Nghapel y Tabernacl trwy ganu nifer o emynau i'r rhai oedd yn eu gweini.



Yr hyn rwyf yn ei ddweud yw mai nid pobl oedd yn adrodd storiâu llythrennol oedd pobl yr oesoedd a fu, a ninnau'n ddigon doeth i'w darllen yn symbolaidd, ond eu bod hwythau wedi adrodd storiâu symbolaidd a ninnau'n ddigon twp i'w cymryd yn llythrennol.

John Dominic Crossan, Diwinydd.

Os hoffech ddefnyddio'r ganolfan neu'r capel, ebostiwhch
carolinerees2@hotmail.com

Mwy o'r Stafell Fyw.....
20fed o Fehefin, Cynhadledd genedlaethol ar gamblo eithafol yn digwydd yn y Pierhead ym Mae Caerdydd rhwng 9.30yb a 4.00yp. Arbenigwyr byd eang yno. Am ddim. Croeso eto i bawb.
Sadwrn 23ain o Fehefin yn y Stafell Fyw, Te Parti Mawreddog rhwng 2.00yp a 4.00yp. Am bris tâl mynediad o £5. Bwyd a diddanwch i'r teulu cyfan.



Mae crefydd ar ei orau pan fydd yn ein gorfodi i ofyn cwestiynau anodd i ni'n hunain. Mae ar ei waethaf pan fydd yn ein twyllo i feddwl fod gennym ni'r holl atebion i bawb arall.....
 Archibald McLeish

CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNACL

'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu.

Mae croeso i bawb yn y gynhadledd hon gyda Jeffery John, cyn i chi fynd i Tafwyll!

Cynhadledd Flynnyddol Cristnogaeth 21 Dydd Sadwrn, 30 Mehefin 2018

'Gwneud Synnwyr o'r Ysgrythur'

yng nghwmni'r
Gwir Barchedig Jeffrey John
 Deon St.Albans

10:00 Coffi
 10:30 Dechrau'r Sesiwn
 1:00 Cinio - pawb i ddod â chinio
 1:30 Cyfarfod Busnes
 2:15 Diwedd
 Tâl Mynediad: £10 ar y dydd

Capel Salem Treganna Caerdydd CFS IQF